# Adroddiad Blynyddol

## MANTELL GWYNEDD

## 2022 - 2023



MANTELL GWYNEDD

www.mantellgwynedd.com

MANTELL
GWYNEDD

*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol*
*Supporting voluntary and community groups*


**SWYDDFA GOFRESTREDIG**
25 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB
Ffôn: 01286 672 626
**ymholiadau@mantellgwynedd.com**

**SWYDDFA ARDAL**
Yr Hen Orsaf Heddlu
Y Lawnt
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1SB
Ffôn: 01341 422575
**dolgellau@mantellgwynedd.com**



Elusen Gofrestredig: 1068851 | Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 3420271 | Cofrestrwyd yng Nghymru


*LLUN CLAWR:*
*Grŵp Wern y Mynach dderbyniodd arian o Gronfa Grant Unigrwydd ac Ynysigrwydd i ddarparu profiadau garddio a choedwigaeth ar gyfer y gymuned.*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Neges gan y Cadeirydd | 4 |
| Gweithgareddau | 5 |
| Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd | 6 - 9 |
| Iechyd a Llesiant | 10 - 11 |
| Presgripsiwn Cymdeithasol | 12 - 13 |
| Social Value Cymru | 14 - 15 |
| Maes Ni | 16 |
| Compassionate Cymru Garedig | 17 |
| Grantiau | 18 - 21 |
| Dathlu 25 mlynedd Mantell | 22 |
| Gwasanaeth Cyflogres | 23 |
| Cynlluniau'r Dyfodol | 24 |
| Crynodeb Ariannol | 25 |
| Bwrdd Rheoli a Staffio | 26 |


www.mantellgwynedd.com

# Neges gan y Cadeirydd...

Braint fawr, unwaith eto, yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Mantell Gwynedd ar gyfer 2022-23.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus arall ag yn flwyddyn pan welwyd y byd yn dod yn ôl i drefn yn dilyn cyfnod Covid-19.

Yng Nghyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd fis Tachwedd 2022 dathlwyd pen blwydd Mantell yn 25 oed a chyfle i edrych yn ôl ar chwarter canrif o weithredu cymunedol yng Ngwynedd. Mae cymaint wedi ei gyflawni ers sefydlu'r cwmni chwarter canrif yn ôl ac mae'r byd wedi newid llawer iawn yn ystod y cyfnod yma.

Fel y gwelwch o'r Adroddiad Blynyddol eleni mae Mantell Gwynedd yn parhau i ddarparu gwasanaethau craidd pwysig ar gyfer cymunedau Gwynedd. Mae'r Ganolfan Wirfoddoli yn parhau i recriwtio, cefnogi a dathlu gwirfoddoli. Da gweld hefyd fod grantiau i fudiadau wedi parhau i gael eu dosbarthu er mwyn cefnogi gweithgareddau sydd yn gwella ein cymunedau, ag wrth i'r Adroddiad Blynyddol yma fynd i'r wasg mae'r newyddion gwych fod Mantell Gwynedd wedi diogelu £1.5m ar gyfer Cronfa Sector Wirfoddol fel rhan o arian Cronfa Ffyniant Bro. Fel y gwelwch mae'r prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon yn parhau i ddarparu gwasanaeth arbennig i rhai o drigolion Gwynedd ers 2016 a mae'n braf hefyd gweld prosiect Compassionate Cymru Garedig yn mynd o nerth i nerth gyda'r Cyfeirlyfr yn ei le a bylchau mewn gwasanaeth yn cael eu cyfarch.

Mae gwaith Social Value Cymru a'r egwyddor o fesur gwerth cymdeithasol yn parhau i dyfu a chynyddu mewn pwysigrwydd a bellach mae'r maes gwaith yma yn cael ei ymgorffori yn y Ddeddf Partneriaeth Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Nod y Ddeddf yw gweithio gyda'n gilydd i wella'r dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru. Mae mesur gwerth cymdeithasol yn ran creiddiol o hyn a 'dwi'n hynod falch fod Mantell Gwynedd wedi bod yn arwain ar yr agenda o fesur gwerth cymdeithasol o fewn y trydydd sector yng Nghymru ers 2016.

Heb os, mae 'na gyfnod heriol o'n blaenau fel sector. Wrth i'r Adroddiad Blynyddol yma gael ei ddarparu mae sôn am heriau ariannol difrifol yn wynebu gwariant cyhoeddus. Bydd toriadau ar lefel Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn sicr o gael effaith ar ariannu'r sector. Gobeithio bydd y rhai sydd yn didoli arian o'r pwrs cyhoeddus yn gweld ac yn deall gwerth gwsanaethau trydydd sector oherwydd, heb unrhyw amheuaeth, mae buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol yn creu arbedion sylweddol i wasanaethau cyhoeddus yn y pendraw, fel mae gwaith Social Value Cymru wedi ei ddangos.

Mae fy niolch yn fawr i holl staff Mantell Gwynedd, a hefyd i fy nghyd aelodau ar y Bwrdd Rheoli am eu cefnogaeth barhaus. Fel dwi'n adrodd pob blwyddyn, tim bychan yw Mantell, ond tim ymroddedig a gweithgar sydd yn creu gwahaniaeth mawr trwy eu gwaith pob dydd. Diolch iddynt a diolch i bob gwirfoddolwr a phawb yn y trydydd sector sydd yn gwneud gwaith rhagorol a chreu gwahaniaeth enfawr yng Ngwynedd a thu hwnt.

**Gwen Griffith**
**(Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)**



# Gweithgareddau

**Beth mae mantell yn ei wneud?**

Cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol, annog unigolion i wirfoddoli a bod yn llais cryf i'r trydydd sector yng Ngwynedd yw nod Mantell Gwynedd.

Mae Mantell Gwynedd yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth leol sydd hefyd yn rhan o rwydwaith CTSC (Cefnogi Trydydd Sector Cymru) sef 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) sy'n gweithredu trwy Gymru. Daw'r arian craidd i redeg y cwmni oddi wrth Lywodraeth Cymru trwy law CGGC. Mae Mantell Gwynedd yn ymgymryd â gwaith a gweithgareddau ychwanegol i hyn ond i gyda gyda'r un nod o hyrwyddo gwirfoddoli a'r trydydd sector yng Ngwynedd.

Derbyniwyd dros

**4,500**

o ymholiadau yn ystod y flwyddyn

**Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:**

- Hyrwyddo, datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli
- Cynrychioli'r trydydd sector a chydweithio ar bartneriaethau strategol
- Rhoi cymorth i bobl a mudiadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus
- Rhoi cefnogaeth lywodraethol i fudiadau e.e. materion cyfansoddiadol ac ariannol
- Rhoi cefnogaeth i fudiadau i fesur eu gwerth yn well, yn enwedig gwerth cymdeithasol
- Gweithredu fel linc ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd sector e.e. Presgripsiwn Cymdeithasol
- Rhoi cefnogaeth i redeg prosiectau a pheilota prosiectau ar gyfer y trydydd sector pan fo angen
- Hwyluso cyflogaeth swyddogion ar ran partneriaid
- Rheoli ffynhonellau grant a rhoi cyngor ar ariannu prosiectau
- Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chynaliadwyedd mudiadau
- Annog datblygiad a chyd-lynu consortia darparwyr trydydd sector
- Rhannu gwybodaeth gyda'r trydydd sector trwy'r Bwletin misol, taflenni gwybodaeth, yr wefan, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddull priodol arall
- Cynnig rhaglen o hyfforddiant i gynorthwyo mudiadau a gwirfoddolwyr yn eu gwaith
- Cynnig gwasanaethau ymarferol e.e. llogi offer, llogi uned symudol, llungopio, darparu ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa
- Cynnig gwasanaeth cyflogres
- Annog cydweithio ar draws sectorau.

## Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i holl fudiadau gwirfoddol Gwynedd, ac mae'r tâl ymaelodi yn **£10 y flwyddyn**.



# Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd



Prif rôl Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yw hyrwyddo a dathlu gwirfoddoli, recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr, yn ogystal â chynghori a datblygu arferion da am wirfoddoli.

**Wythnos Gwirfoddolwyr 2022**

Pob blwyddyn mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn trefnu ystod o weithgareddau yn ystod 'Wythnos Gwirfoddolwyr' sef wythnos genedlaethol i ddathlu gwirfoddoli.

Yn 2022 dychwelodd uchafbwynt yr Wythnos gyda'n 'Digwyddiad Dathlu a Diolch' a gafodd ei gynnal wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2019. Bu oddeutu 100 o unigolion yn Y Galeri yng Nghaernarfon i ddathlu llwyddiannau gwirfoddolwyr Gwynedd. Roedd y pwyslais ar waith gwirfoddolwyr oedd wedi cefnogi ein cymunedau yn ystod y pandemig.

**Cefnogaeth Gwirfoddol Wcráin**

Yn sgîl y rhyfel a chynllun Cartrefi i Wcráin gan Lywodraeth Cymru, croesawyd nifer o deuluoedd ac unigolion i Wynedd. Sefydlodd Mantell Gwynedd rwydwaith o fudiadau gwirfoddol oedd yn cefnogi'r ymdrech yn lleol ac er mwyn galluogi unigolion i gamu ymlaen i gefnogi'r ffoaduriaid. Daeth rôl y sector wirfoddol yn hollbwysig trwy ddarparu cefnogaeth ymarferol i'r ymdrech a gwelwyd nifer o grwpiau a chymunedau ar draws Gwynedd yn trefnu digwyddiadau a recriwtio gwirfoddolwyr.

**Gweithdai Argyfwng Costau Byw**

Un o brif themâu ar ddiwedd y flwyddyn oedd yr argyfwng costau byw. Daeth pwysau enfawr ar fywydau unigolion yn yr Hydref ac i'r Gaeaf, a gwelwyd unwaith yn rhagor rôl allweddol y trydydd sector wrth i bobl geisio am gyngor a chymorth. Trefnodd y Ganolfan Wirfoddoli chwe gweithdy gyda'r nod o hyfforddi gwirfoddolwyr cymunedol gyda'r wybodaeth diweddaraf o'r gefnogaeth sydd ar gael ac fel eu bod yn medru cefnogi eraill o fewn eu cymunedau.



Rhwydwaith Cefnogaeth Gwirfoddol Wcráin Gwynedd



**76** o wirfoddolwyr wedi cofrestru trwy wefan Gwirfoddoli Cymru yng Ngwynedd

**166** o ymholiadau cefnogi unigolion trwy'r Ganolfan Gwirfoddoli



**ASTUDIAETH ACHOS**
**Profiad gwirfoddoli – Dylan Evans**



Dylan Evans

Mae Dylan yn byw yn Waunfawr ac wedi derbyn cefnogaeth gan y Ganolfan Gwirfoddoli. Cafodd ei gyfeirio gan Gyngor Gwynedd oedd yn barod ei gefnogi i chwilio am swydd. Yn ystod y cyfweliad cychwynnol gyda Dylan a Glyn, swyddog o'r awdurdod lleol, cafwyd trafodaeth am ei gefndir, ei ddiddordebau a pham yr hoffai wirfoddoli.

Ymhlith diddordebau Dylan oedd chwaraeon a threnau a dyma gychwyn ar y broses o drafod opsiwn i ymuno gyda thim o wirfoddolwyr gyda Rheilffordd Ffestiniog ag Eryri.

"Dwi'n ddi-waith ac wedi bod yn chwilio am swyddi ers peth amser. Mae'n anodd chwilio am swyddi ar hyn o bryd a dwi'n cael dipyn o gefnogaeth gan Glyn o'r Cyngor. Pan es i weld Carwyn yn y Ganolfan Wirfoddoli, fe wnaeth o sôn am nifer o opsiynau gwahanol gan gynnwys gwirfoddoli gyda'r trenau yn stesion Dinas. Mi wnes i lenwi ffurflen a mewn chydig o ddyddiau, es i draw gyda Glyn i gyfarfod y tim yn Dinas i weld be mae nhw yn wneud yno".

*"Soniodd Carwyn fod gwirfoddoli yn medru gwella fy CV a rhoi strwythr i mi a bod nifer o gyflogwyr yn chwilio am brofiadau gwirfoddol gan bobl."*

*"Mi wnes i ddechra gwirfoddoli yn y steam sheds yn Dinas o fewn chydig o ddyddiau. Mae tua 6 ohonom yn gweithio yna a'r prif dasgau yw trwsio'r trenau. Dw'i wedi dysgu llawer o sgiliau ers bod yno fel dysgu am iechyd a diogelwch, gweithio o fewn tîm, a chydig o waith mechanics ar y trennau. Mae o'n waith corfforol iawn a dwi'n mwynhau fy hun yn fawr iawn. Dwi'n mynd yno unwaith yr wythnos ac yn gwirfoddoli 6 awr ar y tro."*

*"Dwi'n dal i chwilio am swydd ond buaswn yn hoffi gwirfoddoli mwy gyda'r Rheilffordd draw yn Boston Lodge ym Mhorthmadog. Hwn yw'r prif weithdy ble mae nhw hefyd yn trwsio'r trenau a'r cerbydau. Mae o llawer mwy na'r safle yn Dinas."*

*"Ers i mi ddechra gwirfoddoli dwi wedi sylwi fy mod yn llawer mwy hyderus ac eisiau trio pethau newydd. Wnes i rioed feddwl y buaswn yn mwynhau a gweld newid yn fy hun. Mae gwirfoddoli wedi helpu lot a dwi'n edrych mlaen medru dechrau yn Boston Lodge yn Porthmadog".*

# Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd

### GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD

Mae Mantell Gwynedd yn parhau i weinyddu Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd sy'n cael ei arwain gan banel o bobl ifanc. Y syniad tu ôl i'r model yma o roi pobl ifanc mewn rheolaeth o'r gronfa yw er mwyn rhoi sgiliau newydd iddynt ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, fe gefnogwyd gwirfoddolwyr o Ysgol Dyffryn Nantlle fel aelodau o'r panel grant. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rhithiol a dyrannwyd £5,322 i 7 o brosiectau er mwyn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yng Ngwynedd. Dyma'r mudiadau a'r prosiectau llwyddiannus:

| | |
|---|---|
| **Ty'n Llan, Llandwrog** | **£700** |
| **Yr Urdd (Meirionnydd)** | **£750** |
| **Cyfle Support** | **£1,000** |
| **Sgowitiaid Gwynedd** | **£1,000** |
| **Cyngor Gwynedd) / Maes Ni (Maesgeirchen)** | **£772** |
| **GISDA** | **£750** |
| **Snowdonia Donkeys** | **£350** |
| **CYFANSWM** | **£5,322** |

### BLAENORIAETHAU Y GRANTIAU

Bu'n rhaid i geisiadau gyrraedd o leiaf un o nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nod y Ddeddf yw gwella'r modd mae Cymru'n cyflawni llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ac mae'n cydnabod gwirfoddoli fel gweithgaredd allweddol sy'n cyfrannu at yr agweddau hyn ar lesiant. Gall Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd, gyda'u ffordd unigryw o sicrhau ymrwymiad gwirfoddolwyr, gefnogi pobl ifanc i gyfrannu tuag at bob un o'r saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynys
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang







# Gwirfodd




## Cipolwg ar un o'r prosiectau dderbyniodd Grant Gwirfoddolwyr Ifanc

**"GIGS I BOBL IFANC" – YR URDD, MEIRIONNYDD**

Defnyddiwyd y grant i gynnal gig i bobl ifanc yn Theatr Derek Williams, Y Bala a dyma'r tro cyntaf i nifer o bobl ifanc fod yn rhan o drefnu gig. Bu Candelas yn chwarae, a dau fand ifanc newydd ar y sîn i gefnogi – Mynadd o'r Bala, a Maes Parcio o Gaernarfon. Dyma'r ail gig o'r fath i'r Theatr a Urdd Meirionnydd gynnal ar y cyd, er mwyn ceisio cynnal cyfres ohonynt i greu momentwm a diddordeb mewn cerddoriaeth Gymraeg, o dan yr new "Gigs Coridor". Roedd y gigiau ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed yn unig, er mwyn creu'r diddordeb mewn awyrgylch saff i blant yn eu harddegau. Roedd criw o bobl ifanc yn aros yn Nglan-llyn ar y pryd, felly cafodd y criw hynny ddod i'r gig, a gweld cerddoriaeth fyw fodern Gymraeg am y tro cyntaf, ac roeddynt wedi gwirioni'n llwyr.

Dyma hanes un o wirfoddolwyr y prosiect:

**Beth yw eich enw a disgrifiwch beth oeddech yn wneud trwy wirfoddoli...**

*"Nel ydi fy enw i ac rwyf yn gwirfoddoli trwy helpu i drefnu a chynnal cyfres o gigiau or enw 'gigs coridor' sydd yn bartneriaeth rhwng Urdd Meirionnydd a Theatr Derek Williams. Cafodd y gig cyntaf o'r gyfres ei chynnal ym mis Tachwedd 2022 ac yna cafodd yr ail gig ei chynnal ym mis Ebrill 2023. Mae fy nghyfrifoldebau yn cynnwys helpu i benderfynu pa fandiau fydd yn chwarae, a cysylltu a threfnu gyda'r bandiau cefnogi fel Lelog, Mynadd, Yr Ogs a Maes Parcio. Roeddwn hefyd yn gyfrifol am hysbysebu y gigiau drwy roi posteri i fyny yr ysgol a hysbysebu i fy nghyd ddisgyblion ar lafar. Mi wnes hefyd rannu holl hysbysebion oedd ar y cyfryngau cymdeithasol ar fy mhroffiliau fy hun. Cefais hefyd y fraint o gael cefnogi yn y ddwy gig cafodd eu cynnal gyda fy mandiau Lelog a Mynadd."*

**Sut wnaethoch ddechrau gwirfoddoli a beth oedd eich rhesymau dros wneud hynny?**

*"Mi glywais am y cyfleoedd gwirfoddoli gyntaf mewn cwrs i fforwm ieuenctid Yr Urdd, ac ar ôl hynny cefais fy ysbrydoli i wneud gymaint o waith gwirfoddoli a phosib. Yn ystod y cyfnod hyn dechreuais wirfoddoli gyda gigs coridor. Fy mhrif rhesymau dros wirfoddoli oedd i ddatblygu fy hyder, gan fy mod yn mwynhau helpu eraill, ac fy mod wedi clywed ei fod yn gallu fy helpu i gael fy nerbyn i'r brifysgol. Mi roedd hefyd yn fy helpu i ddod yn gyfarwydd gyda'r diwydiant cerddoriaeth."*

**Pa wahaniaeth mae gwirfoddoli wedi ei wneud i chi ac eraill?**

*"Mae gwirfoddoli wedi datblygu fy hunan hyder, gan fy mod yn gallu cael mwy o gyfrifoldebau a chyfleoedd. Rwyf yn gallu cymdeithasu gyda phobol newydd e.e. bandiau cefnogi. Rwyf wedi cael mwy o gyfleoedd i fondio gyda phobol sydd hefyd gyda diddordeb mewn cerddoriaeth. Beth sy'n fuddiol i mi a fy mandiau hefyd ydi ei fod wedi bod yn lwyfan i ni i ddatblygu ein hyder yn gigio, a hynny yn lleol, felly roedd cyfle i'n ffrindiau allu ein gweld yn perfformio. Roedd y ddau gig wedi bod yn llwyddiannus a hwyl i bawb. Roedd hefyd yn gyfle i hybu cerddoriaeth a bandiau Cymraeg yn ein hardal leol. Roedd hyn yn rhoi cyfle i bobol iau fyddai efallai ddim yn cael y cyfle i fynd i fwynhau cerddoriaeth a chymdeithasu mewn lleoliad mwy cyfforddus. Rwyf wedi sylweddoli ei fod wedi hybu bobol yn fy ardal a bobol tu allan o fy ardal (Iwerddon er enghraifft) i wrando ar artistiaid Cymraeg."*

# Iechyd a Llesiant

Mae prosiect Codi Pontydd Cadarn yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ag yn galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Hwylusydd Llesiant llawn amser.

Mae'r swydd yn sicrhau pont rhwng y gwasanaeth iechyd a'r mudiadau trydydd sector sydd yn darparu gwasanaethau yn y maes iechyd a llesiant.

Mae'r Hwylusydd yn:

- Hwyluso cyfarfodydd a chefnogi fforymau a gweithdai
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddylanwadu
- Sicrhau perspectif mudiadau trydydd sector mewn cyfarfodydd parteriaeth a digwyddiadau eraill
- Cynnal cyfres o Rwydweithiau trwy'r flwyddyn





**Yn ystod 2022-23 cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd Rhwydwaith Llesiant a Gwirfoddoli gyda phynciau amrywiol a pherthnasol yn cael eu trafod e.e:**

- Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
- Spîd-detio er mwyn i unigolion ddod i nabod ei gilydd ar draws sectorau
- Cyfleoedd ariannu i fudiadau a "tool kit" gwerth cymdeithasol
- Cyfarfod i drafod Cronfa Ffyniant Gyffredin
- Strategaeth Tlodi Plant



**Ymgysylltwyd gyda thros 400 o fudiadau yn ystod y cyfnod dan sylw.**



Yn ystod y flwyddyn bu i'r Hwylusydd Iechyd a Llesiant gyfrannu at strategaeth Tlodi Plant yng Nghymru gan hwyluso digwyddiad ar y cyd gyda Ynys Môn. Ymgysylltwyd gyda thros 80 o fudiadau er mwyn sicrhau fod llais mudiadau trydydd sector yn cael lle canolog wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant yng Nghymru.



# Digwyddiad Iechyd Da – Dolgellau, Hydref 2022

Manteisiodd
**32**
o fudiadau trydydd sector ar y y cyfle i hysbysebu eu gwasanaethau

Cynhaliwyd Digwyddiad Iechyd Da yn Nolgellau yn ystod Hydref 2022 gyda thros
**250**
o fynychwyr.

“

**CAFWYD ADBORTH ARBENNIG O'R DIGWYDDIAD :**

Roedd rhwydweithio gydag asiantaethau eraill yn ddefnyddiol ac rydym wedi mwynhau cynghori pobl hŷn am ein gwasanaethau.
**Wendy, Age Cymru**

Defnyddiol iawn i rannu syniadau.
**Melissa, Small Woods**

Cawsom sgyrsiau difyr iawn gyda mynychwyr.
**Julie, British Liver Trust**

Gwych cyfarfod ein holl bartneriaid allweddol a dod i nabod pawb.
**Gareth, Heddlu Gogledd Cymru**

Grêt cael Digwyddiad Iechyd Da yn ôl.
**Dementia Actif**

Braf cael bod allan yn siarad gyda phobl o'r gymuned a gyda mudiadau gwahanol. Mae wedi bod yn wych!
**Ceri, GISDA**

”








# Presgripsiwn Cymdeithasol

Mae presgripsiwn cymdeithasol yn galluogi meddygon teulu, nyrsus a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal sylfaenol i gyfeirio unigolion at amryw o wasanaethau lleol sydd ddim yn wasanaethau clinigol. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda ataliol e.e. codi ymwybyddiaeth am sgrinio, atal codymau a hybu cyrsiau iechyd a lles.

Dull sydd yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion mewn modd mwy holistig ydyw a'u hannog i gael gwell gafael ar eu llesiant a'u hiechyd eu hunain. Mae gweithgareddau Presgripsiwn Cymdeithasol yn gallu bod yn amrywiaeth enfawr o bethau ond, ar y cyfan, gweithgareddau ydynt sydd yn cael eu darparu gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol.

Mae sawl model gwahanol o Bresgripsiwn Cymdeithasol ond mae'r rhan fwyaf yn fodelau sydd yn cynnwys Swyddog Cyswllt Cymunedol sy'n derbyn cyfeiriadau a wedyn yn gweithio gyda'r unigolion i adnabod cyfleoedd addas ar eu cyfer. Mae Mantell Gwynedd mewn lle unigryw i ddarparu gwasanaeth Presgripsiwn Cymdeithasol gan ein bod yn gorff ymbarel trydydd sector gyda chronfa ddata enfawr o fudiadau a gan nad ydym yn darparu gwasanaeth rheng flaen ein hunain nid oes unrhyw wrthdaro wrth i ni gyfeirio unigolion at wasanaethau.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Rôl y Swyddog Cyswllt Cymunedol yw:**

- Grymuso unigolion i ail gysylltu gyda'u cymunedau lleol
- Magu hyder a gwydnwch
- Gwella Iechyd a Lles
- Gwella ansawdd bywyd yr unigolion
- Lleihau nifer o apwyntiadau meddygol a'r defnydd o feddygyniaeth
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o beth sydd ar gael i gefnogi a chynorthwyo unigolion
- Lleihau unigrwydd
- Cynorthwyo unigolion i gymryd gwell rheolaeth o'u bywydau

**Ers i'r prosiect gychwyn ym 2016 mae 1520 o unigolion wedi eu cefnogi trwy'r prosiect. Yn ystod 2022-23 mae 171 o unigolion wedi eu cefnogi.**

## CYSWLLT CYMUNEDOL ARFON: CYFEIRIADAU O 1AF EBRILL 2022 - 31AIN O FAWRTH 2023



**ASTUDIAETH ACHOS 'A'**

Cyfeiriwyd Mr A at y Swyddog Cyswllt Cymunedol gan ei Feddyg Teulu. 'Roedd yn teimlo'n unig, ynysig ag ofnus. 'Roedd wedi colli ei hunan hyder o ganlyniad i ynysu yn ystod cyfnod Covid. 'Roedd y cyfnod hwnnw wedi ei adael yn teimlo'n fregus ag yn ddiymadferth.

Wedi sgwrs hir hefo'r Swyddog Cyswllt Cymunedol cyfeiriwyd Mr A at amryw o wasanaethau cefnogol gan gynnwys y Gwasanaeth Atal Codymau a Gofal a Thrwsio. Cafodd gymorth y Swyddog Cyswllt Cymunedol i lenwi ffurflen gais ar gyfer bathodyn glas a chafodd gefnogaeth i ddefnyddio ipad a ffôn symudol yn ogystal ag ymuno hefo gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn.

Derbyniodd Mr A becyn gwybodaeth yn cynnwys manylion am y cynllun Prynu gyda Hyder, Prifysgol y Trydydd Oes, gwasanaeth Edrych ar ol Fy Hun a hefyd manylion clwb cinio oedd yn lleol iddo. Derbyniodd Mr A ei fathodyn glas oedd yn golygu ei fod yn medru mynychu sesiynau Atal Codymau. Golygodd hyn ei fod yn fwy hyderus ac yn gryfach. Dechreuodd siarad hefo unigolion trwy'r gwasnaeth cyfeillio a gwnaeth ffrindiau newydd. Mae Mr A dal yn gweithio ar ei sgiliau TG ond mae ganddo ffôn symudol newydd ag ipad sydd yn golygu ei fod yn medru sgwrsio ar "facetime" gyda'i deulu sydd yn byw dramor.

Rhoddodd Gofal a Thrwsio ganllawiau newydd i fyny yn nhy Mr A a theclynau eraill i'w helpu er mwyn osgoi rhagor o godymau. Mae hyn wedi gwneud i Mr A deimlo'n llawer mwy diogel a hyderus.

Cysylltodd Mr A gyda'r Swyddog Cyswllt Cymunedol ychydig fisoedd yn ddiweddarach er mwyn rhoi ypdet ar ei sefyllfa. Dywedodd ei fod bellach yn mynychu dau grwp lleol ble mae wedi gwneud ffrindiau newydd, ac wedi gweld hen ffrindiau nad oedd wedi eu gweld ers blynyddoedd. Mae'n cysylltu gyda'i deulu yn rheolaidd rwan i sgwrsio ar "facetime".

Dywedodd Mr A

*"Roeddwn eisiau i chi wybod fod fy mywyd yn ôl mewn trefn rwan. Roeddwn yn fregus dros ben pan gysylltodd fy Meddyg Teulu hefo chi. 'Rwy'n hynod ddiolchgar i chi am droi fy mywyd rownd"*

**ASTUDIAETH ACHOS 'B'**

Cyfeiriodd Mrs B ei hun at y Swyddog Cyswllt Cymunedol gan ei bod wedi cael Cymorth y Swyddog Cyswllt Cymunedol yn flaenorol. 'Roedd Mrs B mewn sefyllfa ddifrifol wedi darganfod fod rywun neu rywrai wedi defnyddio ei henw a'i manylion personol i gyflawni twyll. 'Roedd cwmni benthyca arian wedi danfon llythyrau cyfreithiol bygythiol ati ac 'roedd Mrs B mewn sefyllfa ofnadwy o bryderus.

Cysylltodd y Swyddog Cyswllt Cymunedol gyda "Action Fraud" i riportio'r mater ag yna aethpwyd at Cyngor ar Bopeth am gyngor cyfreithiol arbenigol. Cafodd Mrs B gymorth i ddelio gyda'r bygythiadau ag i ddanfon gwybodaeth at y cwmni benthyca gan gynnwys copiau o lythyrau, ebysd, dogfennau wedi eu sganio ag ati er mwyn profi fod twyll wedi digwydd.

Datruswyd y mater a derbyniodd Mrs B ymddiheuriad gan y cwmni bethyca.

Mynychodd Mrs B gwrs i godi ymwybyddiaeth am sgamiau er mwyn gofalu na fyddai hyn yn digwydd eto.

Dywedodd Mrs B

*"Dwi mor falch fod hyn wedi cael ei ddatrys. Mae wedi bod yn gyfnod pryderus iawn i mi ac 'rwy'n ddiolchgar i chi am fy nghefnogi unwaith eto"*

# Social Value Cymru

Bu i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 osod seiliau cadarn i'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol trwy ofyn i sectorau (cyhoeddus, preifat a thrydydd sector) i weithio'n wahanol. I wneud hynny 'roedd angen meddwl beth oedd y pethau pwysig oedd angen eu mesur a'u rheoli. Dim ond trwy ddeall gwerth cymdeithasol y gallwn wir fynd ati'n effeithiol tuag at reoli y modd yr ydym yn creu llesiant. Erbyn hyn mae egwyddorion gwerth cymdeithasol wedi eu hatgyfnerthu yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Nod y Ddeddf yma yw gweithio gyda'n gilydd i wella'r dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru. Bydd mesur gwerth cymdeithasol yn greiddiol i'r cyfan.

Ers 2016 mae Mantell Gwynedd wedi bod yn cyflawni gwaith arloesol yn y maes mesur gwerth cymdeithasol.

Dros gyfnod o saith mlynedd mae'r tim wedi datblygu i fod yn dri aelod sydd wedi cynmhwyso trwy Social Value UK fel ymarferwyr achrededig yn y maes.

**Ym 2019 enillodd Mantell Gwynedd farc ansawdd cenedlaethol am wreiddio gwerth cymdeithasol yn ei holl waith. Dyma'r tro cyntaf i gorff ymbarel ennill marc ansawdd o'r math yma. Yn ddiweddarach yn 2020 derbyniodd Mantell Gwynedd wobr gan Social Value UK am ei waith yn gweithio mewn Partneriaeth i gynyddu gwerth cymdeithasol. Bellach, mae un o'r tim Social Value Cymru gyda statws Hyfforddwr Rhyngwladol ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer mudiadau ar draws y byd.**

Mae Tim Social Value Cymru, Mantell Gwynedd yn gallu cynnig amrediad eang o wasanaethau yn y maes mesur gwerth cymdeithasol gan gynnwys adroddiadau SROI llawn a hyfforddiant wedi ei deilwro ar gyfer mudiadau unigol.







SOCIAL VALUE UK
Pioneer

SOCIAL VALUE COMMIT 1 CERTIFICATE
AWARDED BY SOCIAL VALUE INTERNATIONAL

**ASTUDIAETH ACHOS:**
**GISDA**

Sefydlwyd GISDA yn 1985 er mwyn cynnig lloches a chefnogaeth i bobl ifanc digartref yn ardal Arfon. Bellach mae wedi datblygu yn fenter gymdeithasol er mwyn parhau i gynnig gwasanaethau i bobl ifanc bregus rhwng 16 a 25 mlwydd oed sydd yn byw yng Ngogledd Cymru.

Mae GISDA yn cynnig amrywiaeth o brosiectau a gwasanaethau amrywiol e.e. llety a gwasanaethau cefnogol, gweithgareddau creadigol ag artistig, gweithgareddau therapiwtig a hamdden, Cyngor a Gwybodaeth, a hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli.

Comisiynwyd Social Value Cymru i baratoi adroddiad SROI (Social Return on Investment) ar brosiect Cymorth Tai Gisda. Nod y prosiect yw darparu llety a'r gefnogaeth ochr yn ochr â'u paratoi ar gyfer byw yn annibynnol.

Yn ystod 2021-2022 cefnogwyd 151 o bobl ifanc drwy Cymorth Tai ac 'roedd 86 wedi cael cymorth drwy'r ochr galw'i mewn.

Adroddwyd newidiadau positif i fywydau unigolion gan gynnwys gwelliant mewn iechyd meddwl, iechyd corfforol, rhwydwaith gwell o gefnogaeth ac hefyd roeddynt yn fwy annibynnol.

**Mae'r gwaith SROI wedi dangos fod cynllun Prosiect Cymorth Tai GISDA wedi creu gwerth o fwy na £3m ac wedi creu gwerth o £5.77 am bob £1 a fuddsoddwyd.**

*"Roedd gweithio gyda Social Value Cymru yn brofiad positif iawn i ni yn GISDA. Mae'r wybodaeth a'r casgliadau wedi agor ein llygaid a gwneud i ni adlewyrchu a sylweddoli gwerth ein gwaith yn fwy... buasem yn annog unryw un i fynd trwy'r broses yma."*
Sian Tomos, Prifweithredwraig GISDA

**ASTUDIAETH ACHOS:**
**Y Bartneriaeth Awyr Agored**

Sefydlwyd y Bartneriaeth Awyr Agored yn 2015 er mwyn ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Mae'r Bartneriaeth yn dod a'r sector breifat, cyhoeddus a'r trydydd sector at ei gilydd er mwyn gweithio ar y cyd yn y sector awyr agored. Y weledigaeth yw Cyfoethogi Bywydau trwy Weithgareddau awyr agored. Dros gyfnod o 8 mis gweithiodd Social Value Cymru efo'r Bartneriaeth Awyr Agored i ddatblygu fframwaith i fesur gwerth ar gyfer gwaith y mudiad cyfan.

Pwrpas y fframwaith oedd nid yn unig i fesur gwerth ac arddangos effaith ond er mwyn galluogi y data i gael ei ddadansoddi er mwyn gwneud penderfyniadau gwell. Cynorthwyodd Mantell Gwynedd Y Barteriaeth Awyr Agored i sefydlu Is Grwp Gwerth Cymdeithasol gyda Chylch Gorchwyl penodol. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ac yn sicrhau fod data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu gwneud sydd yn seiliedig ar beth sydd yn bwysig i randdeiliaid ac yn sicrhau fod llais rhanddeiliaiaid yn ganolog i lywodraethiant a phenderfyniadau da.

Fel rhan o'r gefnogaeth roddwyd i'r Bartneriaeth Awyr Agored darparwyd hyfforddiant i'r staff cyfan er mwyn sicrhau eu bod gyda'r sgiliau yn fewnol i fesur a rheoli eu heffaith. Datblygwyd adnoddau ar gyfer aelodau staff er mwyn eu helpu i fesur gwerth ac er mwyn sicrhau fod y data a ddadansoddir yn sicrhau uchafu effaith mewn prosiectau yn y dyfodol.

*"Rydym yn gweld Gwerth Cymdeithasol fel peiriant mawr ar gyfer newid, a hwnnw yn gweithio o'r gwaelod i fyny trwy ein rhanddeiliaid a'n staff. Mae hyfforddi ein holl staff wedi dod a ffocws clir i ni ar ein themau craidd trwy'r Mapiau Gwerth. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb arweiniad a chefnogaeth Mantell Gwynedd."*
Pencampwr Gwerth Cymdeithasol ac Aelod o'r Bwrdd Rheoli

# Prosiect Maes Ni Maesgeirchen

Ers 2018 mae Mantell Gwynedd wedi cyflogi Swyddog Datblygu Cymunedol yn Maesgeirchen sydd wedi gweithio'n agos hefo'r gymuned er mwyn adnabod blaenoriaethau ac ehangu ar weithgareddau o fewn y gymuned. Trwy gyflogi Gweithiwr Datblygu Cymunedol mae Mantell Gwynedd wedi medru darparu cefnogaeth barhaus i'r prosiect a'r gymuned. Mae prosiect MaesNi yn cael ei ariannu gan y Rhaglen Buddsoddi'n Lleol a ariennir gan y Loteri Fawr ac a reolir gan Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau.

Mae'r Rhaglen Buddsoddi'n Lleol yn gweithredu mewn 13 o gymunedau ar draws Cymru gyfan ac maen'n cynnig cyfle i bobl yn y cymunedau hynny eu gwneud yn llefydd gwell a mwy dymunol i fyw ynddynt.



Yn ystod y flwyddyn mae'r Gweithiwr Datblygu Cymunedol wedi chwarae rhan bwysig yn y datblygiadau canlynol:

- Helpu sicrhau cynrychiolaeth ar Grŵp Llywio MaesNi
- Cefnogi grwpiau er mwyn i'r grwpiau rheiny wedyn ddechrau cefnogi ei gilydd
- Gweithio gyda Caffi Hive sydd yn paratoi hyd at 70 o brydau bwyd yn wythnosol ac yn tyfu llawer o'u cynnyrch eu hunain trwy'r Clwb Garddio
- Helpu gyda'r astudiaeth dichonoldeb a sgopio ar gyfer Canolfan Gymunedol newydd
- Helpu gyda'r gwaith o drosgwlyddo adeilad y Clwb Ieuenctid o Cyngor Gwynedd i'r gymuned
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu MaesNi yn ffurfiol fel endyd er mwyn rhedeg adeiladau
- Gweithio gyda'r gymuned a "Reconnection Tour" y Grassroots Advsiory Network a chymryd rhan mewn "Policy Summit" gydag 16 o gymunedau ledled Prydain ar thema costau byw
- Cydweithio gyda ICAN yn MaesNi er mwyn integreiddio cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant yn y gymuned gyda chyfleon tymor hir i ymuno â grwpiau a bod yn rhan o gymuned
- Cefnogi'r HWB ac adeiladu ar gefnogaeth gymunedol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- Helpu gyda chael dros £100,000 o arian grant ychwanegol i mewn I'r gymuned tuag at weithgareddau a phrosiectau gwahanol.

MaesNi

# Cymru Garedig

Yn 2018, nododd Llywodraeth Cymru ei ddyhead i Gymru ddod yn 'wlad dosturiol' gyntaf y byd. Ers hynny mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ledaenu'r ymagwedd dosturiol ledled Cymru.

Gweledigaeth Cymru Garedig yw bod yn genedl ystyriol a gofalgar sy'n dod ynghyd i ddatblygu dulliau tosturiol i gefnogi iechyd a lles pobl. Mae Cymru Garedig yn gweithio gydag unigolion, sefydliadau a chymunedau i wella sut mae pobl yng Nghymru yn marw, yn gofalu ac yn galaru. Nod Cymru Garedig yw helpu pobl i gyrchu a chynnig gwybodaeth, gofal a chefnogaeth mewn modd tosturiol yn eu cymunedau. Mae yn canolbwyntio'n benodol ar ofal a chefnogaeth ar ddiwedd oes pobl, pryd bynnag y bydd hynny'n digwydd.

Mae Mantell Gwynedd yn falch o fod yn rhan o'r datblygiad unigryw yma a thrwy gydweithrediad gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhawyd y cyllid angenrheidiol i gyflogi Swyddog Compassionate Cymru sydd yn cael ei chyflogi gan Mantell Gwynedd ac yn gweithio ar draws Gwynedd, Môn a Chonwy.




Prif waith y Swyddog yw:

- Hyrwyddo agweddau tosturiol
- Cefnogi rhwydweithiau lleol sydd yn hyrwyddo agweddau tosturiol
- Mapio gwasanaethau gofal diwedd oes a gwasanaethau galar a chreu Map Gwasanaeth gyda'r bwriad o fynd ati i geisio llenwi bylchau gwasanaeth sydd wedi eu hadnabod. Bydd hyn yn ei dro yn ceisio sicrhau gwasanaeth diwedd oes cyflawn ac addas o fewn ein cymunedau.
- Cefnogi mannau gwaith i fabwysiadu polisïau ar gyfer cefnogi unigolion sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd sy'n lleihau bywyd a chefnogi unigolion sy'n delio gyda marwolaeth a phrofedigaeth

Yn ystod 2022- 2023 mae'r Swyddog wedi cysylltu gyda sefydliadau ar draws Cymru er mwyn adnabod pa wasanaethau gofal a chefnogaeth diwedd oes sydd ar gael i blant, pobl ifanc ac oedolion yng Ngwynedd, Conwy ac Ynys Môn. Bellach mae Cyfeirlyfr cynhwysfawr wedi ei greu sydd yn cynnwys holl fanylion yr amrywiol wasanaethau.

Yn dilyn cwblhau'r cyfeirlyfr, a chyda trafodaethau pellach yn parhau i gael eu cynnal, mae bylchau cychwynnol mewn gwasanaeth wedi eu hadnabod. Un enghraifft o adnabod bwlch mewn gwasanaeth a gweithio gyda'r gymuned i'w lenwi yw Caffi Colled, Bethesda.

**Caffi Colled Bethesda**

Trwy gydweithio gyda Chaplan Bro Bethesda aethpwyd ati yn ystod Gwanwyn 2023 i sefydlu Caffi Colled ym Methesda.

# Grantiau



**GRANT UNIGRWYDD AC YNYSIGRWYDD**

Ym mis Chwefror 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth gyntaf ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd. Sefydlwyd Cronfa Unigrwydd er mwyn helpu i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd.

Derbyniodd Mantell Gwynedd £20,000 er mwyn ei ddyrannu yng Ngwynedd yn ystod 2022-23. Derbyniodd 13 o fudiadau arian o'r Gronfa.

**Gwerin y Coed, Penrhyndeudraeth.**
Derbyniodd Gwerin y Coed arian i gynnal 12 gweithdy creadigol 'Utopias Bach Penrhyn' yng Ngwaith Powdwr, Penrhyndeudraeth, yn ogystal â 6 sesiwn arlein. Gweithdai oedd rhain i wahodd pobl ifanc ac oedolion unig ac ynysig i ddod yn rhan o sesiynau Gwerin y Coed er mwyn creu llwybr darganfod newydd sbon i'r gymuned.

**Neuadd Bentref Dinas Mawddwy**
Derbyniodd Neuadd Bentref Dinas Mawddwy arian o'r Gronfa i helpu creu "Hwb Digidol" yn y neuadd bentref, fydd yn galluogi i'r gymuned ei ddefnyddio i gysylltu gyda'u haelodau/unigolion/ rheini and ydynt yn medru teithio i'r neuadd. Bwriad y prosiect oedd galluogi gweithgareddau yn y neuadd gael eu darlledu ar y we, a rhoi cyfle i'r unigolion hynny oedd methu bod yn bresennol yn y neuadd i fod yn rhan o'r gweithgareddau.

**Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn.**
Derbyniodd yr Amgueddfa arian i gynnal cyfleon i bobl o bob oed i ddod at ei gilydd i gymdeithasu a mwynhau creu cerddoriaeth.



**Bore Panad 50 Abersoch a'r Cylch**
Defnyddiodd y grŵp arian o'r Gronfa i drefnu rhaglen o weithgareddau cymdeithasol amrywiol i bobl hŷn yn yr ardal gyda'r nod o leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. 'Roedd y gweithgareddau a gefnogwyd yn cynnwys ymweld â'r Sinema ym Mhwllheli, Y Galeri yng Nghaernarfon a Chanolfan Age Cymru, Bontnewydd.

**Ffrindiau Dysynni Dogs**
Bu i Ffrindiau Dysynni ddefnyddio'r arian i ddatblygu cyfleoedd gyda chŵn anwes fel bod pawb o'r gymuned yn medru cymryd rhan gan gynnwys rhai gydag anableddau a phroblemau gyda'u symudiad. Bu i hyn hybu iechyd meddwl a chorfforol yr unigolion gan ddarparu lleoliad cymdeithasol a chyfeillgar i bawb o bob oedran i gyfarfod a chymdeithasu a mwynhau eu hunain.

**Cwmni Theatr y Ddraig, Y Bermo**
Cynhaliodd Theatr y Ddraig gyfres o 14 o sesiynau oedd yn cynnwys dangos dwy ffilm ymhob sesiwn a darparu paned i'r mynychwyr. Yn ogystal, cymerodd y Theatr y cyfle i ddefnyddio'r sesiynau er mwyn creu cysylltiadau gyda asaintaethau cefnogi fel Cyngor ar Bopeth er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol a defnyddiol I'r trigolion am faterion megis budd-daliadau, pensiynau ag ati.

**Tir Dewi, Pen Llŷn**
Defnyddiodd Tir Dewi yr arian i lansio Clwb newydd sef Clwb Ffermwyr Llŷn. 'Roedd hyn yn dilyn ymgynghori gyda'r gymuned amaethyddol yn Sioe Nefyn a'r Ras Tractors er mwyn deall yn union beth oedd y gymuned ei angen. Bydd Clwb Ffermwyr Llŷn yn darparu cefnogaeth i deuluoedd ac yn cynnig cyfleoedd i gyfarfod a chymdeithasu i ymlacio a rhannu gofiadiau a phryderon.





**Menter Llŷn, Llanbedrog a Mynytho**
Bu i Fenter Llŷn ddefnyddio'r arian i brynu offer garddio cymunedol ar gyfer cymunedau Llanbedrog a Mynytho. Bu hyn yn fodd i ddod ag unigolion at ei gilydd, i hybu cymdeithasu a chyfeillgarwch, i wella gweledIad y ddau pentref, a thrwy hynny lleihau unigrwydd ac annog cymdeithasu.

**Pobl i Bobl, Bangor**
Trefnu digwyddiadau i ddod a phobl at ei gilydd wnaeth Pobl i Bobl gyda'r arian y bu iddynt dderbyn. 'Roedd yn fodd i helpu pobl i greu cysylltiadau newydd a chryfhau cysylltiadau parod. Y bwriad oedd cynnig cefnogaeth a chael hwyl yn y broses.

**Wern y Mynach, Y Bermo**
Defnyddiodd y grwp cymuedol yr arian i ddarparu profiadau garddio, coedwigaeth a dulliau adeiladu gyda choed a natur. 'Roedd unigolion o bob oedran a chefndir wedi cymryd rhan, a'r ardd yn darparu lleoliad cyfarfod tu allan er mwyn dysgu sgiliau newydd i unigolion.

**Neuadd Bentref Rhiwlas**
Derbyniodd Neuadd Rhiwlas arian er mwyn cynnal sesiynau i greu teils crochenwaith sydd bellach i'w gweld ar furiau'r neuadd. Mewn cyfres o weithdai dan arweiniad Lyn Gallagher o Grochendy Penmon bu trigolion y pentref, yn blant ag oedolion, wrthi yn llunio teils crochenwaith gyda rhywfaint o hanes y pentref. Trefnwyd digwyddiad swyddogol i ddadorchuddio'r gwaith teils sydd bellach yn rhan o arddangosfa barhaol yn y neuadd.

**Ffrindiau'r Aber, Abergynolwyn**
Defnyddiodd Ffrindia Aber yr arian i gynnal cyfres o dê partis i ddod a thrigolion at ei gilydd pob pythefnos. Trwy ddarparu lluniaeth ysgafn a gweithgareddau megis cadw'n heini ar gyfer pobl mewn oed, daethwpyd a phobl yn y gymuned at ei gilydd yn rheolaidd a chreu cysylltiadau pwysig rhyngddynt. Darparwyd cinio 'dolig ar gyfer y rhai hynny fyddai, fel arall, wedi treulio'r Nadolig ar eu pennau eu hunain. Trwy ddarparu noswaith o adloniant yn y neuadd bu i hyn hefyd dorri ar wythnos hir ac unig i nifer o drigolion yn ystod misoedd hir y gaeaf.

**Eryri Cydweithredol**
Gyda chyllid o'r Gronfa lansiodd Eryri Cydweithredol eu prosiect DIDDANU. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol yng Ngwynedd er mwyn yn lleihau teimladau o unigrwydd ac ynisgrwydd a gwella llesiant cyffredinol. Bu i'r digwyddiadau wyneb yn wyneb roi'r cyfle i ddod a phobl at ei gilydd a chymdeithasu drwy fwynhau lluniaeth megis te prynhawn a cherddoriaeth a gweithgaredd lles.







# Grantiau ...





## CRONFA GRANT CROESO CYNNES

Yn ystod 2022 bu i Lywodraeth Cymru ehangu'r gefnogaeth ar gyfer unigolion a theuluoedd yn ystod cyfnod o greisis costau byw.

Gan gydnabod ei bod yn amser anodd i lawer bu i'r Llywodraeth roi £1m ar gyfer Cymru gyfan er mwyn darparu lleoliadau cymunedol cynnes a chysurus. Roedd yn ran o becyn ehangach Lywodraeth Cymru i gynnig cefnogaeth mewn cyfnod oedd yn un heriol i lawer.

Derbyniodd Mantell Gwynedd £45,000 i'w ddosbarthu fel cronfa grant ar gyfer mudiadau yng Ngwynedd.

Bu i 19 o fudiadau yng Ngwynedd gael budd o'r Gronfa Croeso Cynnes gan ddarparu gofod cynnes a chroesawus ar gyfer y gymuned.

**Clwb Rygbi Dolgellau**
Defnyddiodd y Clwb Rygbi arian o'r gronfa er mwyn agor drysau'r clwb pob Dydd Gwener rhwng 10yb a 3pm ar gyfer y gymuned leol er mwyn darparu lleoliad cysurus gyda phaned a lluniaeth a chyfle am sgwrs a chymdeithasu.

**Tecstiliau Cwmni Buddiant Cymunedol – Bethel**
Ymestyn oriau agor wnaeth y grŵp yma er mwyn darparu "Noson Cynnes" gyda chyfle am baned a sgwrs a chreu crefftau a gwella sgiliau technoleg. Bu iddynt agor bob yn ail Dydd Sul, yn ogystal â gyda'r nos, a'r gymuned yn gwerthfawrogi y cyfle i gymdeithasu a dysgu sgiliau newydd.

**Our Lady of Seven Sorrows - Dolgellau**
Bu i'r eglwys ddefnyddio'r arian er mwyn cynnal cyfres o sesiynau wythnosol ar gyfer y gymuned leol. Cafwyd sesiynau hanes lleol yn ogystal â chyfle i weld ffilmiau wrth fwynhau cymdeithasu a phaned.

**Canolfan Y Fron - Caernarfon**
Bu i Ganolfan y Fron ymestyn oriau agor ar gyfer y gymuned o 10yb tan 8yh, ac 'roedd hyn yn dair awr ychwanegol o wasanaeth i bentref bychan. Bu modd i'r mynychwyr gael cyfleoedd i ddysgu crefftau a chymdeithasu. Bu i ymestyn oriau agor hefyd ychwanegu at y cyfleoedd gwirfoddoli yn yr ardal.

**Neuadd Goffa Cricieth**
Ymestyn oriau agor ar gyfer y cyhoedd oedd hanes Neuadd Goffa Cricieth hefyd a'r cyllid o Gronfa Croeso Cynnes yn eu galluogi i agor gyda'r nos, cynnig paned a chyfle am sgwrs a chynnig defnydd WI-FI ar gyfer unigolion oedd yn chwilio am ofod gwaith yn ystod y dydd.

**Eglwys Sant Padarn, Llanberis**
Galluogodd yr arian o'r Gronfa Grant Croeso Cynnes i'r Eglwys agor ei drysau yn wythnosol er mwyn croesawu'r cyhoedd. Bu i'r Eglwys hefyd gynnal dau ddigwyddiad pendol i ddathlu dydd Dewi Sant a diwrnod crempog.

**Canolfan Waunfawr**
Defnyddiwyd yr arian i dalu am gostau trydan a nwy er mwyn sicrhau fod digwyddiadau yn medru parhau yn y Ganolfan dros gyfnod y gaeaf gan ddarparu prydau ysgafn a phaned.







**Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth**
Talodd y grant am y costau ynni ychwanegol o ganlyniad i gynnal amrediad ehangach o ddigwyddiadau cymunedol yn ystod cyfnod y gaeaf. Gan mai'r ysgol yw canolfan y pentref 'roedd hefyd yn gyfle i gryfhau'r berthynas rhwng gwahanol oedrannau yn yr ardal.

**Theatr y Ddraig, Y Bermo**
Galluogodd yr arian o'r gronfa grant i'r Theatr fedru agor yr Ystafell Gelf trwy'r dydd pob dydd Llun ag i ddarparu lluniaeth ysgafn gan gynnwys pryd ganol dydd a gyda'r nos wrth i'r gymuned fwynhau cymdeithasu a chadw'n gysurus.

**Grŵp Cymunedol Maes Tryfan, Bangor**
Galluogodd arian o'r gronfa i'r grŵp cymunedol ddarparu gofod cynnes ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion gan gynnig gweithgareddau amrywiol a chyfle i gymdeithasu. Yn ychwanegol i hyn bu'r cymdeithasu yn fodd i sefydlu Pwyllgor i ddatblygu adnodd cymunedol i'r ardal.

**Canolfan Pennal, Tywyn Meirionnydd**
Golygodd yr arian o'r gronfa fod y Ganolfan yn medru agor ei drysau i'r gymuned yn wythnosol gan gynnig prydau bwyd ysgafn, mynediad i'r wê, a chyfle i fenthyg papurau newydd a llyfrau neu gael sgwrs. Bu hefyd yn fodd i gludo bwyd a phapur newydd i henoed y pentref oedd methu mynychu'r Ganolfan.

**SHED, Y Felinheli**
Cyfle i swatio o flaen y tân a mwynhau sgwrs a phaned oedd hanes y Gronfa Grant Croeso Cynnes yn Y Felinheli. Cynhaliwyd ambell ddigwyddiad gyda bwyd a cherddoriaeth hefyd er mwyn hybu cymdeithasu a llesiant unigolion.

**Pwyllgor Pentra Deiniolen**
Gweithiodd y Pwyllgor Pentra' hefo Menter Fachwen i agor caffi gyda'r nos ag ar y penwythnos ar gyfer trigolion ardal Deiniolen. Cyfle i gymdeithasu, cadw'n gynnes a chael rhywbeth i fwyta gan gynnig croeso cynnes i drigolion Deiniolen a'r cylch.

**Canolfan Morfa Bychan**
Defyddiodd Canolfan Morfa Bychan yr arian i dalu am y costau ynni ychwanegol wrth gynnig oriau agor ehangach a chyfleoedd estynedig i'r gymuned gymdeithasu.

**Eglwys Efengylaidd Ardudwy**
Darparwyd drysau agored, lleoliad cynnes a chwmpeini gyda phaned ar gyfer trigolion yr ardal. Mewn pentref bychan roedd dros 20 o bobl wedi cael budd a 9 gwirfoddolwr newydd.

**Neuadd Goffa Friog and Fairbourne**
Defnyddiwyd yr arian i agor y ganolfan ar gyfer y gymuned yn ystod y dydd. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb y grant i dalu'r costau ynni ychwanegol. Roedd y prosiect yn un oedd yn cydweithio rhwng y neuadd, Age Cymru a Coleg Meirion Dwyfor.

**Capel Caersalem, Caernarfon**
Darparu prydau pwyd a chyfleoedd cymdeithasol gyda gemau a gweithgareddau ar gyfer teuluoedd yr ardal wnaeth Capel Caersalem.

**Clwb Pel Droed Bethel**
Defnyddio safle gwag Y Bedol ym Methel fu hanes y Clwb Pel Droed er mwyn cynnal cyfres o weithgraeddau trwy fisoedd y gaeaf a chynnig paned a lluniaeth ysgafn ar gyfer mynychwyr.

**Cwmni Bro Antur Aelhaearn**
Gweithio gyda phwyllgor pentref Trefor wnaeth Cwmni Bro Antur Aelhaearn er mwyn cynnal Clwb Cinio dros gyfnod o 10 wythnos yn ystod y gaeaf. Darparwyd pryd dau gwrs ar gyfer hyd at 50 o unigolion gan groesawu pob oedran a chyfle i sgwrsio a chymdeithasu a chadw'n gynnes.

# Mantell Gwynedd

## yn dathlu Carreg Filltir!

**YN YSTOD 2022 DATHLODD MANTELL GWYNEDD EI BEN BLWYDD YN 25 OED!**

Mewn digwyddiad ym Mhortmeirion ym mis Tachwedd 2022 daeth llu o fudiadau ac unigolion at ei gilydd i ddathlu carreg filltir yn hanes Mantell Gwynedd.

Croesawyd cyn aelodau staff a rhai eraill oedd wedi bod yn rhan o waith Mantell Gwynedd o'r cychwyn cyntaf a hynny chwarter canrif yn ôl. Llywyddwyd y dydd gan Gwen Griffith, Cadeirydd presennol Mantell Gwynedd ond hefyd yn bresennol oedd Gareth Jâms oedd yn Gadeirydd cyntaf y cwmni pan gafodd ei sefydlu yn 1997. Siaradwr gwadd y dydd oedd Chris Buchan, Pennaeth Uned Cymunedau a Thrydydd Sector, Llywodraeth Cymru a roddodd gyflwyniad am yr heriau sydd yn wynebu'r trydydd sector a sut bydd yn rhaid bod yn gryfach nag erioed yn y dyfodol er mwyn goroesi.

Cafwyd cyflwyniad diddorol ac amserol gan Teresa Owen, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y thema "Edrych yn ôl ac edrych ymlaen". Pwysleisiodd gryfder y trydydd sector yn ystod cyfnod covid pan oedd angen ymateb yn chwim i heriau. Dywedodd fod cyfnod Covid wedi bod yn her aruthrol i'r boblogaeth gyfan ond fod y cyfnod yma hefyd wedi gweld y trydydd sector ar ei orau. Cafwyd perspectif trydydd sector i gloi y dydd gyda Mark Owen o Bartneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru yn sôn am pa mor bwysig yw gwerthuso gwasnaethau, ac yn arbennig felly mesur gwerth cymdeithasol gweithgareddau. Roedd yn gyfle i gael gwibdaith trwy esblygiad y Bartneriaeth gan atgoffa pawb o ardal unigryw Gogledd Cymru a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig.

**Adborth gan fynychwyr y dathliad...**

"Diwrnod anhygoel!"

"Dathliad ardderchog!"

"Sector arbennig!"



# Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Mantell Gwynedd yn darparu gwasanaeth cyflogres ar gyfer mudiadau trydydd sector yng Ngwynedd.

Gall materion ariannol a chyflogaeth fod yn gymhleth i fudiadau bychan sydd yn aml yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth cyflogres yn rhoi sicrwydd i fudiadau o daliadau a gweithdrefnau cywir ac yn golygu fod na rywun ochor arall i'r ffôn i gynnig cymorth a chefnogaeth fel bo angen.

Dyma sydd gan rai o'r mudiadau i ddweud am y gwasanaeth cyflogres maent wedi ei dderbyn:

"Mae'r gwasanaeth paratoi cyflogau yn fudd mawr i ni fel cwmni, mae'n lleihau y baich o baratoi'r cyflogau yn fisol, ac rydym yn gwybod fod y manylion yn gywir bob amser. Nid ydym wedi cael dim trafferthion o gwbl wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn gan Mantell Gwynedd, ac yn ddiolchgar iawn i'r staff sydd ben arall y ffôn bob amser i ateb unrhyw gwestiwn sydd ganddom".
**Pum Plwy' Penllyn**

"Mae cael Mantell i baratoi Cyflogau wedi bod o fudd i'n gwasanaeth ni. Mae cysylltiad agos gyda'r adran cyflogau ac maent yna o hyd i helpu".
**Clwb Plant Segontiwm**

"Mae'r gwasanaeth o fudd mawr i ni fel Cylch Meithrin. Mae'n wasanaeth hollol ddidrafferth ac mae'r Swyddogion yn barod bob amser i gynghori a rhoi arweiniad. Mae hyn yn bwysig iawn i Drysoryddion sy'n wirfoddolwyr ac yn aml heb unrhyw brofiad o dalu cyflog a delio gyda Chyllid y Wlad. Trwy ddefnyddio'r gwasanaeth mae rhywun yn dawel ei feddwl bod y prosesau cywir wedi cael eu dilyn".
**Delyth Jones, Cylch Meithrin Talysarn**

"Mae'r gwasanaeth cyflogres yr ydym yn ei dderbyn gan Mantell Gwynedd yn greiddiol i redeg ein mudiad yn iawn. Mae'n wasanaeth cwbl ddibynadwy wrth i ni ddelio gyda materion o ddydd i ddydd ac wedi bod yn ffynhonell werthfawr o wybodaeth gan ein harwain, yn amyneddgar iawn, a'n helpu i ddatrys cymhlethdodau sydd yn codi".
**Clare Mathews, Cylch Meithrin, Llandygai**

"Mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi defnyddio gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd i baratoi y cyflogau ers bron i ddeng mlynedd ac wedi ei gael yn hynod o werthfawr. Mae'r gofynion ar Swyddog Ariannol yn cynyddu o hyd ac mae gwybod bod rhywun yr ochr arall i e-bost neu ffôn i gynorthwyo gydag ymholiad am y cyflogau yn gymorth mawr. Parod iawn yw staff Mantell Gwynedd i roi'r cymorth unrhyw amser a diolch iddynt i gyd."
**Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

# Cynlluniau i'r Dyfodol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o'r Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd Mantell Gwynedd yn cyflawni'r Cytundeb trwy ddarparu cefnogaeth mewn pedwar maes, sef Llywodraethu Da, Gwirfoddoli, Cyllid Cynaliadwy ac Ymgysylltu a Dylanwadu.

Rhoddodd COVID-19 ffocws newydd ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac ar draws sectorau. Byddwn yn parhau i gyd weithio mewn partneriaeth er lles poblogaeth Gwynedd ac yn gobeithio bydd y partneriaethau rheiny yn parhau i ffynnu a thyfu.

Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus ac yn sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.

Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael y cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny, yn gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol y prosiect er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am wasanaethau trydydd sector.

Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes Gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da mae Mantell Gwynedd eisioes wedi arwain arno.

Byddwn yn gweithio gydag phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.

Wrth i'r wlad wynebu heriau economaidd aruthrol byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r creisis costau byw.


# Crynodeb Ariannol

**Sut mae Mantell Gwynedd yn cael ei ariannu**


Pob blwyddyn mae Mantell Gwynedd yn llwyddo i ddenu arian o nifer o amrywiol ffynonellau e.e. Cyrff y Llywodraeth, Ymddiriedolaethau Elusenol a Chronfeydd Loteri.

Cyfanswm Incwm yn ystod 2022/23
**£601,255**

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2022/23
**£648,767**




CYMHARIAETH YNG NGWARIANT MANTELL GWYNEDD YN YSTOD 2021/22 a 2022/23




*Cysylltwch â Mantell Gwynedd am gopi o Gyfrifon Ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2023*

# Bwrdd Rheoli 2022/2023

**SWYDDOGION**
**Cadeirydd: Gwen Griffith**
Ymddiriedolaeth Hawliau Lles Anabledd
**Is-Gadeirydd: Annie Williams**
Cyn Bennaeth Coleg Harlech WEA wedi ymddeol
**Trysorydd: Elwen Roberts**
Creu Menter
**Is-Drysorydd: Trystan Pritchard**
Prif Swyddog Hosbis Dewi Sant

**AELODAU**
**Y Tad Deiniol**
"Yn Ein Blaenau"
**Betty Williams**
Aelod Seneddol wedi ymddeol
**Cyng. Paul John Rowlinson**
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd
**Meinir Evans**
Canolfan Felin Fach (o Medi 2023)

# Staff 2022/2023

**TÎM RHEOLI**
**Bethan Russell Williams**
Prif Swyddog
**Ceren Williams**
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu

**DATBLYGU A GWASANAETHAU**
**Eleri Lloyd**
Rheolwr Gwerth Cymdeithasol
**Mathew Lewis**
Swyddog Mesur Gwerth Cymdeithasol
**Gareth Jâms**
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth
**Carys Williams**
Swyddog Datblygu a Grantiau a Chynorthwy-ydd Cyllid
**Jess Mead Silvester**
Gweithiwr Datblygu Maesgeirchen (MaesNi)
(hyd at Mawrth 2023)

**IECHYD A LLESIANT**
**Sioned Llwyd Larsen**
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
(hyd at Gorffennaf 2022)
**Sioned Llywelyn Roberts**
Hwylusydd Iechyd a Llesiant
(o Gorffennaf 2022)
**Rhian Griffiths**
Swyddog Cyswllt Cymunedol Arfon
**Carina Roberts**
Cydlynydd Cymunedol
(o Mai 2022)

**CYLLID A GWEINYDDOL**
**Tracy Lynne Rotheram**
Swyddog Gweinyddol
**Arwen Elysteg Evans**
Cynorthwy-ydd Gweinyddol
(hyd at Mehefin 2023)

**CANOLFAN GWIRFODDOLI GWYNEDD**
**Carwyn Humphreys**
Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli